

Crynhoi'r gynhadledd
Lles, canu, profion, toriadau
ariannol, a mwy.

LEGO am ddim
Helpu plant i ddatblygu
eu sgiliau digidol.

Newyddiadurwyr y dyfodol
Adnodd am ddim i ddisgyblion
cynradd greu newyddion.

addysgu yng Nghymru

Rhifyn 63
Tymor y gwanwyn 2020



Cynhadledd NEU Cymru yn rhoi sylw i ddyfodol addysg yng Nghymru

CYNHALIODD NEU Cymru ei gynhadledd gyfun gyntaf yng Nghasnewydd ym mis Tachwedd, gan uno hen sectorau'r NUT a'r ATL yn llwyr am y tro cyntaf.

Mary Busted, cyd-ysgrifennydd cyffredinol yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU), a agorodd y gynhadledd, a'r llywydd Amanda Martin oedd yn cadeirio.

Cyfarchodd David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru, y cynrychiolwyr: "Y llynedd, roeddwn i'n croesawu cynrychiolwyr i gynhadledd creu polisi gyntaf adran NUT Cymru yr Undeb Addysg Cenedlaethol.

"Dywedais ar y pryd fy mod yn edrych ymlaen at weld y digwyddiad hwn yn dod yn un rheolaidd yn ein dyddiaduron, ac rwyf wrth fy modd yn gallu'ch croesawu chi i gyd i gynhadledd NEU Cymru ar ei ffurf gwbl integredig."

Bu 82 o gynrychiolwyr o 21 ardal (o'r 22 yng Nghymru) yn trafod 30 o gynnigion dros ddeuddydd, gan roi sylw i'r holl faterion pwysig sy'n berthnasol i weithwyr addysg – ac roedd cyfeithu ar y pryd ar gael i wneud hynny yn Gymraeg a Saesneg.

Ymhlith y siaradwyr gwadd roedd Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, a fu'n sôn am gwricwlwm newydd Cymru. "Dyma'r adeg am gwricwlwm 'a wnaed yng Nghymru' go

iawn," meddai. O ran y newidiadau i Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, dywedodd mai "addysg am berthnasoedd, nid



Cyda'r cloch o'r chwith uchaf: Mary Busted, Amanda Martin, David Evans, Kirsty Williams, Meilyr Rowlands a Huw Foster Evans

rhyw, yw hon". Dadleuodd fod "achos cryf, ar sail egwyddor" dros wneud Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhan o'r cwricwlwm – a chael gwared ar hawl rhieni i dynnu plant o'r gwersi hyn.

Clywodd y gynhadledd hefyd gan Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru (Estyn), a oedd yn barod i "adolygu, dysgu a newid. Y nod yw meithrin diwylliant o barch ar y ddwy ochr, a bod yn fwy ffurfiannol ac adeiladol."

Clywodd y cynrychiolwyr hefyd gan Huw Foster Evans, prif weithredwr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru. Bu'r holl siaradwyr gwadd yn ateb cwestiynau wedyn. O amgylch y gynhadledd yng Ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd roedd stondinau, cyfarfodydd ymylol, a chyfleoedd i weithwyr proffesiynol ifanc gyfarfod. I gryn gymeradwyaeth, cyhoeddwyd mai yn Llandudno y cynhelir cynhadledd y flwyddyn nesaf. **Yn parhau ar dudalennau 3 a 4**

LEGO yn helpu i ddatblygu sgiliau digidol

MAE prosiect Gwell-Sgil NEU Cymru yn rhoi gweithdy LEGO am ddim drwy Facebook, gyda'r nod o helpu staff ysgolion i ddatblygu eu sgiliau cymhwysedd digidol.

Bob mis mae'r prosiect yn targedu tri awdurdod lleol, gan anfon e-byst at ysgolion ac aelodau'r NEU yn rhoi gwybod am y cynnig ac yn rhoi dolen i'r manylion am y gystadleuaeth ar dudalen Facebook y prosiect, [facebook.com/neucymrutraining](https://www.facebook.com/neucymrutraining)

Dechreuodd y rownd gynigion bresennol ym mis Medi 2019, a bydd yn para tan fis Ebrill 2020.

Ymhlith yr enillwyr hyd yma mae Ysgol Gynradd Llanfyllin yn Sir Drefaldwyn, Ysgol Gynradd Adamsdown yng Nghaerdydd ac Ysgol Rhyd y Llan ar Ynys Môn.

Yr awdurdodau lleol sy'n cael eu targedu ym mis Ionawr yw Wrecsam, Torfaen ac Abertawe.

Ewch i [facebook.com/neucymrutraining](https://www.facebook.com/neucymrutraining) neu anfonwch e-bost at wulf@neu.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

■ Un o brosiectau Cronfa Ddysgu Undebau Cymru yw Gwell-Sgil, ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.



Dyddiadau dysgu i'ch dyddiadur

MAE dysgu'n ganolog i waith NEU Cymru ac rydym yn ymfalchïo yn yr hyfforddiant lleol rydym yn ei roi i weithwyr addysg proffesiynol, swyddogion lleol a chynrychiolwyr gweithle. Rydym yn cynrychioli'r grŵp mwyaf o weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru, ac mae ein cred yng ngrym dysgu i bawb wedi'i adlewyrchu yn y cyfleoedd dysgu rydym yn eu rhoi i aelodau NEU Cymru.

HYFFORDDIANT I GYNRYCHIOLWYR

Mae cyrsiau undydd a chyrsiau tridiau'r undeb i bob cynrychiolydd gweithle - yn gynrychiolwyr newydd a hen - wedi bod yn llwyddiant mawr, gan eu bod yn rhoi'r adnoddau a'r hyder i gynrychiolwyr wneud gwir wahaniaeth i fywydau aelodau.

Ar ôl gwrando ar yr adborth a gafwyd gan y cynrychiolwyr hynny sydd eisoes wedi cymryd rhan, mae un newid o bwys wedi'i wneud i'r modd y mae'r cyrsiau'n cael eu cyflwyno.

Mae cyrsiau Sylfaen ac Uwch i gynrychiolwyr bellach ar gael ar ffurf cyrsiau tridiau llawn, lle bydd cynrychiolwyr yn mynychu am dri diwrnod o'r bron mewn bloc, neu ar ffurf modiwlau, lle gellir mynychu'r tri diwrnod ar wahân dros gyfnod o amser.

Cyrsiau sylfaen

7 Chwefror - cwrs modiwlau, diwrnod 1 - Future Inns, Caerdydd
12-14 Chwefror - cwrs tridiau, Gwynedd (lleoliad i'w gadarnhau)
19-21 Chwefror - cwrs tridiau, Holiday Inn, Casnewydd
Mawrth - cwrs tridiau (Cyfrwng Cymraeg), Gwynedd (dyddiadau a lleoliad i'w cadarnhau)

Cyrsiau uwch

4-6 Mawrth - cwrs tridiau, Future Inns, Caerdydd

Os hoffech chi fod yn gynrychiolydd gweithle a mynd ar un o'r cyrsiau uchod, cysylltwch â swyddfa NEU Cymru. Cofiwch fod gan gynrychiolwyr hawl gyfreithiol i fynd ar y cyrsiau hyn.

Mae cyrsiau hefyd ar gael drwy brosiect newydd Cronfa Ddysgu

Undebau Cymru. Mae modd gweld rhestr o'r cyrsiau hyn, sy'n cael ei diweddarau'n gyson, ynghyd â chofrestru ar eu cyfer yn [eventbrite.co.uk/o/national-education-union-cymru-training-10916965546](https://www.eventbrite.co.uk/o/national-education-union-cymru-training-10916965546)

Eich syniadau chi am hyfforddiant yn y dyfodol

Os hoffech chi i'r undeb ystyried trefnu cwrs penodol, yna cysylltwch â Lisa Williams lisa.williams@neu.org.uk neu Beth Roberts, beth.roberts@neu.org.uk

Rhaid i'r holl gyrsiau gyd-fynd â'r canllawiau ar gyfer ein pedwar maes blaenoriaeth:

- Sgiliau hanfodol
- Cynnydd a datblygiad mewn gyrfa
- Iechyd a lles
- Dysgu'r Gymraeg

Cadwch olwg ar eich e-bost i weld gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddiant diweddaraf. Hoffwch ni ar Facebook yn [facebook.com/neucymrutraining](https://www.facebook.com/neucymrutraining), dilynwch ni ar Twitter drwy [@neucymrutrain](https://twitter.com/neucymrutrain) ac ewch i [neu.org.uk/learning-and-events](https://www.neu.org.uk/learning-and-events)

Athro cymwys ym mhob dosbarth

GAN drafod y cynnydd “pryderus” yn nifer y staff anghymwys sy’n addysgu mewn dosbarthiadau, meddai Gerry Reynolds o Dawe Afan Nedd: “Bydd goblygiadau os byddwn yn gadael i staff anghymwys addysgu yn ein hysgolion. Dim ond un cyfle’n unig y mae plant yn ei gael. Mae pob diwrnod yn y byd addysg yn cyfrif. Mae’n rhaid cal athro cymwys ym mhob ystafell ddosbarth.”

Bod o ddirif ynghylch lles staff

BU ond y dim i Bethan Jones o Fro Morgannwg (gweler tudalen 4) roi gorau i addysgu’n llwyr ddwy flynedd yn ôl, ond yna daeth o hyd i swydd mewn ysgol sy’n rhoi gwir werth ar les y staff.

Dywedodd Bethan wrth y gynhadledd: “Rwy’n caru addysgu, fy ysgol, a’m teulu gwaith, ac mae gen i gydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd. Rwy’n teimlo fod gan bobl feddwl ohonof a’u bod yn fy mharchu fel athrawes, ac rwy’n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi yn fy swydd. Dylai pob athro ac athrawes a staff ysgol deimlo’r un fath yn eu swyddi.”

Cyllid teg i ysgolion Cymru

BU Clare Jones o Rondda Cynon Taf yn colffarnu’r diffyg cyllid i ysgolion Cymru.

“Rydym wedi syrffedu ar orfod dal dau ben llinyn ynghyd – ac mae’r fformwla cyllido fesul disgybl yn llai nag yw yn Lloegr. Mae’r esgid yn gwasgu ar gyllidebau ysgolion, a dim ond o drwch blewyn y mae ysgolion yn ymdopi. Mae plant yn cael llai, ac mae popeth y mae ysgolion am ei wneud ar draul rhywbeth arall.”

Boicotio’r profion sy’n rhoi plant dan bwysau

CAFODD y diwylliant profion sy’n rhoi plant ysgolion cynradd o dan bwysau ei feirniadu’n hallt gan Jane Jenkins (dde), y gynrychiolwraig o Gaerdydd. Cynigiwyd cynnig ganddi i foicotio’r profion hyn.



“Mae’n rhaid cael gwared ar y profion hyn ar frys,” dywedodd Jane wrth y gynhadledd, oherwydd bod profi plant

Lansio adnodd newyddiadurol i greu newyddion

LANSIODD NEU Cymru yr Adnodd Creu Newyddion (‘Making News’) i Ysgolion mewn sesiwn amser cinio yn ystod y gynhadledd, a honno wedi’i hwyluso gan **Emma Meese** (yn y llun uchod).

Mae’r prosiect yn ffrwyth cydweithio rhwng prosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru NEU Cymru, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, a Chanolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd (C4CJ).

Pecyn ar-lein, rhad ac am ddim, i hyfforddi’r hyfforddwr yw’r adnodd, a’r nod yw helpu disgyblion ysgolion cynradd i feithrin sgiliau gohebu sylfaenol. Mae’r adnodd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae’n dysgu’r genhedlaeth newydd o ddinasyddion sut i edrych ar newyddion a gwybodaeth, gyda’r nod o wrthsefyll y newyddion ffug bondigrybwyll sy’n lledu yn yr oes ddiigidol.

Yn ôl Beth Roberts, sy’n gyfrifol am ar adnodd ac yn gydlynnydd Cronfa Ddysgu Undebau Cymru NEU Cymru: “Mae hwn yn ffrwyth cydweithio cyffrous iawn rhwng C4CJ a phrosiect Cronfa Ddysgu Undebau



Cymru NEU Cymru. Rydym hefyd yn ddiolchgar i’r athrawon a dreialodd yr adnodd yn eu hysgolion.”

Meddai Emma Meese, cyfarwyddwr newyddiaduraeth gymunedol Prifysgol Caerdydd: “Cynhaliwyd cynllun peilot dair blynedd yn ôl mewn dwy ysgol gynradd ym Merthyr, ac rwyf wrth fy modd, drwy weithio gyda phrosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru’r NEU, y gallwn bellach gyflwyno’r adnodd hollbwysig hwn i ysgolion ledled Cymru.” Ewch i communityjournalism.co.uk

ysgol gynradd yn “niweidiol i ddisgyblion a’r rheini sy’n eu haddysgu”.

“Mae pawb yn athrylith, ond os byddwch chi’n beirniadu gallu pysgodyn i ddringo coeden, bydd yn byw ei holl fywyd yn credu ei fod yn dwp. Nid rhifau mo’n plant; nhw yw’r dyfodol, nawr!”

Galargan Gymreig

ROEDD y ffaith mai Cymru – gwlad y gân – yw’r unig wlad yn y Deyrnas Unedig heb gynllun cerddoriaeth cenedlaethol yn fater o ofid i gynrychiolwyr yn y gynhadledd, a alwodd ar Lywodraeth Cymru i fynd i’r afael â’r diffyg hwn.

Siaradodd Jennie Williams, o Rondda Cynon Taf, yn angerddol am sut yr oedd cerddoriaeth wedi cyfoethogi’i bywyd yn ystod ei phlentyndod. “Fe allwch chi newid bywydau drwy gerddoriaeth.”

Fel cynrychiolwyr eraill, soniodd Sam Rogers am bwysigrwydd cerddoriaeth

ym mywydau plant wrth iddynt dyfu yng Nghymru, a gofynnodd: “Beth sydd wedi digwydd i ganu? Ers talwm roedden ni’n arfer canu – yr ysgol i gyd, bob dydd. A gawn ni ganu unwaith eto? Canu er mwynhad yn unig!”

Taranu yn erbyn y toriadau

GALWODD John Unsworth, o Ynys Môn, ar gynrychiolwyr i ymgychu yn erbyn toriadau i gyllid ysgolion drwy ddefnyddio dulliau mudiadau cymdeithasol er mwyn ennill y frwydr – gan gyfeirio at y llyfr Raising Expectations (and Raising Hell) gan Jane McAlevey (yn y llun). Dywedodd fod y wefan toriadauiysgolion.cymru yn adnodd pwysig i helpu i danio diddordeb y gymuned gyfan.



Yn parhau ar dudalen 4

Yma i helpu

FEL yr undeb addysg mwyaf, gall NEU Cymru roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau. Mae ein fîm proffesiynol yma i

ddefnyddio' u harbenigedd er mwyn helpu ein rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle ac ysgrifenyddion rhanbarthau a changhennau.

Os oes gennych chi problem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- cynrychiolydd eich gweithle;
- ysgrifennydd eich cangen;
- Adviceline;
- Swyddfa NEU Cymru.

NEU Cymru

Ty Sinnott, 18 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ

Ffôn: 029 2049 1818

E-bost: cymru.wales@neu.org.uk

Ysgrifennydd Cymru: David Evans

Uwch Swyddogion Cymru:

Gareth Lloyd, Debbie Scott

Uwch Swyddog Polisi Cymru:

Mary van den Heuvel

Trefnydd y Gogledd: Cai Jones

Trefnydd y De: Robert Goddard

Cyfreithiwr Cymru: Angharad Booker

Aelodau Gweithredol: Neil Foden, Mairead Canavan, Lesley Tipping

Prif Swyddfa

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Hamilton House, Mabledon Place, Llundain WC1H 9BD

Ffôn: 020 7388 6191

Gwefan: neu.org.uk

Llywydd: Amanda Martin

Cyd-ysgrifenyddion Cyffredinol:

Mary Bousted a Kevin Courtney



Baich gwaith a'r cwricwlwm

RHYBUDDIODD Dai

Edwards (ar y dde), o Sir y Fflint, am faich gwaith sy'n rhoi athrawon o dan straen, a'r angen i ystyried hyn yn y cwricwlwm

newydd. "Mae addysgu yn yrfa sy'n rhoi pobl o dan fwy o straen na'r rhan fwyaf o yrfaedd eraill," meddai.



Codi llais dros iechyd meddwl

BU Kathleen Steelandt, o Sir Ddinbych, yn siarad yn frwd dros yr angen i roi sylw i'r argyfwng iechyd meddwl

ymhlith gweithwyr addysg.

"Rydyn ni'n sêr o fri!" meddai. "Ond weithiau rydyn ni'n anghofio rhoi'n hunain yn gyntaf. Yn dra aml, dim ond pan na allwn ni barhau rhagor y sylweddolwn ni ein bod ni'n sâl.

"Mae modd inni chwythu'n plwc, heb ddigon o egni yn ein tanciau i barhau. Ddylai neb anwybyddu'r gwirionedd hwn. Ddylen ni ddim ei weld fel stigma, fel gwendid. Gadewch inni godi llais yn erbyn salwch meddwl."

Galwodd y cynnig am greu siarter iechyd meddwl ac iddo sail mewn deddfwriaeth.

Athrawon yw athrawon cyflenwi hefyd!

CYNHALIWIYD dadl o bwys am sut y mae pobl yn cam-fanteisio ar athrawon cyflenwi yng Nghymru – er gwaethaf cyflwyno cytundeb fframwaith newydd.

Beirniadodd Sheila Jones, o Gaerffili, y modd "anghyfiawn" y mae rhai asiantaethau wedi llwyddo i ddod o hyd i ffyrdd i osgoi talu'r cyfraddau y cytunwyd arnynt, er eu bod wedi ymrwymo i ddilyn y fframwaith newydd.

Mae'r fframwaith newydd i athrawon cyflenwi wedi bod yn berthnasol ers mis Medi eleni, a rhaid i isafswm y gyfradd a delir gyfateb i'r isafswm a delir i athrawon ar y Brif Raddfa Gyflog – ond mae asiantaethau'n dod o hyd i ffyrdd i osgoi gwneud hyn. "Mae angen tegwch, cyfiawnder a chydardoldeb ar athrawon cyflenwi," meddai Sheila.

Ychwanegodd Angela Sandles (uchod), o Sir Fynwy, nad oes unrhyw asiantaeth wedi cael sancsiynau am gynnig athrawon cyflenwi i



gyflogwyr y "tu allan i'r fframwaith".

Gan annog pob cynrychiolydd i gefnogi'r cynnig yn galw am chwythu'r chwiban a chryfhau'r ddeddfwriaeth, meddai Angela: "Mae pob athro dymor i ffwrdd o fod yn yr un sefyllfa â ni."

■ Ymrwymodd yr NEU i alw am gyflogi pob athro'n uniongyrchol – gan gael gwared yn llwyr ar asiantaethau sy'n gwneud elw.



"Bu'n gynhadledd wych. Trafodwyd cynifer o bethau pwysig rwy'n frwd yn eu cylch. Roedd hi'n fuddiol iawn dod yma, dim ond i gael profiad, i ddeall y materion diweddaraf yn y byd addysg, ac i gyfarfod pobl newydd."

Bethan Jones, cynrychiolydd am y tro cyntaf, Bro Morgannwg